Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfarfod y Bwrdd: 31 Mawrth 2017**

**Papur i'w nodi**

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad Chwythu'r Chwiban** |
| **Diben y papur:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am chwythu'r chwiban yn Llywodraeth Cymru |
| **Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd:** | Dim angen penderfyniad. Papur er gwybodaeth y Bwrdd yn unig yw hwn. |
| **Papur wedi'i baratoi gan:** | Jo Bergin,<br>Adran yr Ysgrifennydd Parhaol |
| **Cyhoeddi** | Gellir cyhoeddi'r papur hwn gan nad ydy unrhyw un o'r esemptiadau yn gymwys. |
| **Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:** | 14 Mawrth 2017 |

**1. Cefndir**

1.1 Pan fo gweithiwr yn lleisio pryder am gamweddau neu arferion gwael yn y gweithlu ag iddynt agwedd budd y cyhoedd, gelwir hyn yn chwythu'r chwiban. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y DU ei adroddiad ar y trefniadau a'r diwylliant chwythu'r chwiban mewn adrannau Llywodraeth. Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chwythu'r chwiban wedi'i datganoli, fodd bynnag, nis ofynnwyd i Lywodraeth Cymru roi tystiolaeth ar gyfer adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y DU.

1.2 Derbyniodd Llywodraeth y DU amryw o argymhellion ac, o ganlyniad, adolygodd Panel Chwythu'r Chwiban Llywodraeth Cymru ein trefniadau ein hunain i weld a dylid gweithredu unrhyw un o'r argymhellion. Mae manylion yr argymhellion a'r newidiadau a gafodd eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r Papur hwn, er gwybodaeth y Bwrdd, wedi'i gomisiynu fel ymateb i argymhelliad 4. Mae'n argymell y dylai swyddogion ymrwymo i gynnal adolygiad ehangach o'r gwersi a ddysgwyd, a darparu i'r Bwrdd adroddiad yn cynnwys ystadegau a themâu sy'n datblygu mewn perthynas â chwythu'r chwiban, trosiant staff, cwyno, yr Arolwg Pobl a materion Adnoddau Dynol. Cafodd y diweddariad cyntaf yn gysylltiedig â chwyno ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2016. Nod yr adroddiad yw dod o hyd i dueddiadau ar draws amrywiol feysydd.

**2. Trefniadau Chwythu'r Chwiban yn Llywodraeth Cymru**

2.1 Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil ar waith sy'n rhoi manylion sut y gall staff leisio pryder. Yn unol â'r polisi, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gael nifer o Swyddogion Enwebedig i roi cyngor ac arweiniad i staff ar y ffordd orau o leisio pryderon.

2.2 Ar gyfer pob achos a godir o dan y polisi, mae Panel o aelodau yn ystyried ffeithiau a rhinweddau'r achos cyn cytuno ar gamau gweithredu. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch, gan nad yw un person ar ei ben ei hun yn gallu penderfynu a ddylid ymchwilio. Mae'r Panel yn cynnwys:

- David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu – Cadeirydd a Swyddog Enwebedig
- Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Helen Morris, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd
- Katie Antippas, Cadeirydd Ochr yr Undebau Llafur
- Jo Bergin – Ysgrifennydd a Swyddog Enwebedig

2.3 Mae tystiolaeth o unrhyw waith ymchwilio yn cael ei chyflwyno i'r Panel sy'n penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol.

**3. Ein hystadegau a sut yr ydym yn cymharu**

3.1 Rhannodd Llywodraeth y DU ystadegau ym mis Hydref 2016 yn gysylltiedig â'r cyfnod adrodd o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016. Roedd tua 33 o adrannau wedi darparu data, a 18 o'r adrannau hynny wedi adrodd am achosion drwy eu sianeli chwythu'r chwiban neu gwyno, sy'n gyfanswm o 224 o achosion o chwythu'r chwiban. Nid oedd yn ofynnol i'r gweinyddiaethau datganoledig ddarparu data ac, yn anffodus, nid yw'r Alban na Gogledd Iwerddon yn darparu'r data hyn yn eu Datganiadau Llywodraethu ar hyn o bryd er mwyn inni allu cymharu â hwy.

3.2 Yn yr un cyfnod adrodd, cafodd pum achos eu hadrodd o dan bolisi Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr achosion a'r mathau o faterion a godwyd.

*1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016*

| **Grŵp** | **Cyfanswm yr Achosion** | **Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt yn ddienw** | **Math o Achos Chwythu'r Chwiban** |
|---|---|---|---|
| ESNR | 2 | 1 | Mater lleol, yn gysylltiedig ag Adnoddau Dynol, methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol |
| OFMCO | 2 | 1 | Arall |
| Ar draws LIC | 1 | 0 | Arall |
| Cyfanswm | 5 | 2 | |

3.3 Nis ymchwiliwyd i un o'r achosion gan ei fod yn ymwneud ag ymddygiad staff y tu allan i'r gwaith ac nid oedd yn dod o dan y polisi. Cafodd camau eu cymryd i atgoffa'r staff perthnasol am y lefelau ymddygiad derbyniol a ddisgwylir. Roedd un o'r achosion yn ddi-sail a chafodd ei adrodd yn ddienw ac yn faleisus gan gyn-bartner un o swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd sail i ddau achos a chymerwyd camau rheoli lliniarol i fynd i'r afael â hwy. Ymchwiliwyd i un achos lle'r oedd posibilrwydd bod rheoliadau caffael wedi'u torri a chanfuwyd ei fod yn ddi-sail ac nad oedd angen cymryd camau pellach.

3.4 Yn ystod y cyfnod adrodd o 1 Ebrill 2016 i 9 Mawrth 2017 cafodd pedwar achos eu hadrodd i'r Panel. Roedd tri achos o blith y rheini yn gysylltiedig â materion Adnoddau Dynol, a chymerwyd camau y tu allan i'r polisi a chawsant eu cau. Mae un achos, sydd yn yr arfaeth o hyd, yn gysylltiedig â phryderon ynghylch presenoldeb swyddogion mewn digwyddiadau gwleidyddol. Nid yw'n debygol y bydd ystadegau ar lefel y DU ar gael tan fis Hydref eleni, er mwyn gallu cymharu.

3.5 Mae manylion ein hystadegau chwythu'r chwiban ers 2011 i'w gweld yma.

| Blwyddyn Galendr | Nifer yr achosion | Achosion yr adroddwyd amdanynt yn ddienw gan staff |
|---|---|---|
| 2011 | 2 | 0 |
| 2012 | 6 | 4 |
| 2013 | 5 | 3 |
| 2014 | 3 | 0 |
| 2015 | 6 | 2 |
| 2016 | 3 | 2 |
| Cyfanswm | 25 | 11 |

3.6 Mae'r Panel wedi gweithio yn y blynyddoedd diwethaf i symleiddio'r broses a'i gwneud yn fwy hygyrch ac i godi proffil y Panel. Mae cynnwys Cadeirydd

Ochr yr Undebau Llafur yn aelod o'r Panel hefyd wedi helpu i gynyddu ei hygrededd ymhlith y staff. Ynghyd â hynny, mae'r adborth gan y rheini sydd wedi lleisio pryderon wedi bod yn gadarnhaol. Mae opsiwn yn y polisi i staff ofyn am adolygiad annibynnol o achos, gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, os nad ydynt yn fodlon â'r canlyniad. Nid yw'r opsiwn hwnnw wedi'i ddefnyddio hyd yn hyn.

**4. Goblygiadau o ran adnoddau**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol nac o ran staff i'r papur hwn.

**5. Risgiau**

5.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r materion a drafodir yn y papur hwn.

**6. Cyfathrebu**

6.1 Er nad oes unrhyw gynlluniau ar gyfer cyfathrebu ar hyn o bryd, mae sylw'r staff yn cael ei dynnu at y Polisi Chwythu'r Chwiban sawl gwaith y flwyddyn drwy dudalen newyddion y staff.

**7. Materion Cydymffurfio Cyffredinol**

7.1 Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio yn gysylltiedig â'r papur hwn.

| Cyf | Argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Derbyn/Gwrthod | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | Lle y bo'n hysbys pwy sydd wedi chwythu'r chwiban, rhaid i adrannau sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn, eu cefnogi, a bod eu llesiant yn cael ei fonitro. Dylai hyn gynnwys;<br>• Perchenogaeth o'r brig drwy neilltuo aelod o'r bwrdd sy'n atebol am drin chwythwyr chwiban yn briodol.<br>• Rhoi i chwythwyr chwiban gefnogaeth a chyngor priodol, fel mynediad at wasanaethau cyfreithiol a chwnsela.<br>• Sancsiynau priodol a chyflym yn erbyn gweithwyr, ar bob lefel yn y sefydliad, os byddant yn erlid chwythwyr chwiban. | Derbyn<br>Derbyn<br>Derbyn | • David Richards, yn ei rôl fel Cadeirydd y Panel a hefyd fel yr Aelod o'r Bwrdd penodedig gydag atebolrwydd personol dros y ffordd y mae chwythwyr chwiban yn cael eu trin.<br>• Ar hyn o bryd mae'r undebau llafur yn rhoi cefnogaeth i aelodau'r undeb. Os nad yw staff yn aelodau o'r undeb, gallant gysylltu â'r Tîm Iechyd Galwedigaethol, y Rhaglen Cymorth i Weithwyr am gyngor. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y polisi Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer staff a bydd staff yn cael eu cynghori pan fyddant yn lleisio pryder ar lafar. Bydd tudalennau'r fewnrwyd ar chwythu'r chwiban yn cael eu newid fel bod manylion y cymorth ar gyfer chwythwyr chwiban yn fwy amlwg.<br>• Atgoffir chwythywr chwiban o'u hawliau ar unwaith wrth iddynt fynegi eu pryderon ac y dylent adrodd am unrhyw erledigaeth. Bydd hyn yn cael ei adrodd wrth y Panel Chwythu'r Chwiban ac ymchwilir iddo. |
| 2 | Dylai adrannau ddarparu trywydd i bob gweithiwr a fydd yn egluro'r llwybrau adrodd mewnol ac allanol priodol. Dylid efelychu hyn drwy'r system gyflenwi gyda goblygiadau clir ar ddarparwyr preifat a'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus fod rhaid iddynt ddefnyddio polisïau chwythu'r chwiban cadarn ac effeithiol. | Derbyn | Mae tudalennau'r fewnrwyd yn helpu staff i weld y gwahaniaeth rhwng chwythu'r chwiban a chwyn gyflogaeth ac maent yn cynnwys rhestr o'r pwyntiau cyswllt priodol ar gyfer chwythwyr chwiban. Fel yr amlinellir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, disgwylir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer chwythwyr chwiban i amlygu pryderon heb ofni y bydd gwneud hynny yn cael effaith niweidiol. Yn ddiweddar, cafodd pob Swyddog Cyfrifyddu, y rhybudd DAO yn amlinellu'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd eu gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn eu hadroddiadau llywodraethu blynyddol. |
| 3 | Darparu trefniadau clir ar gyfer adrodd yn ôl yn brydlon i chwythwyr chwiban ar sut yr aed i'r afael â'u pryderon. | Derbyn | Naill ai Ysgrifennydd y Panel Chwythu'r Chwiban mewnol i gysylltu ag unigolion yn bersonol neu enwi aelod o'r panel fel y cyswllt ar gyfer yr achos i roi'r newyddion diweddaraf i'r chwythwr chwiban (lle y bo'n hysbys pwy yw'r chwythwr chwiban). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhoi gwybod i'w gweithlu am hyn a dweud wrth y chwythwr chwiban am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i brosesau a pholisïau o ganlyniad i chwythu'r chwiban.<br><br>Adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn y datganiadau llywodraethu yn yr Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon. | Derbyn<br><br>Derbyn | Pan fo newidiadau'n cael eu gwneud i systemau/ gweithdrefnau o ganlyniad i chwythu'r chwiban, bydd hynny'n cael ei wneud yn hysbys. Bydd y newid hwn hefyd yn cael ei wneud yn y polisi. Mae ystadegau blynyddol wedi cael eu cyhoeddi i'r staff er mwyn dangos nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt.<br><br>Bydd adroddiad ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn cael ei gynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2015/16. Mae rhybudd DAO wedi'i roi i bob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt wneud yr un fath. |
| 4 | Dylai adrannau asesu a ydy trefniadau chwythu'r chwiban yn effeithiol drwy wneud defnydd gwell o fesurau sydd ar gael ar hyn o bryd, fel arolwg y gwasanaeth sifil, a chyflwyno rhai eraill, fel tueddiadau yn nifer yr achosion o chwythu'r chwiban ac ystyried pa mor amserol yw'r ymchwiliadau. Dylai adrannau hefyd ystyried sut y gallant wella eu cefnogaeth ar gyfer chwythwyr chwiban, gan edrych er enghraifft ar fesurau fel olrhain sgiliau cyflogaeth a dilyniant gyrfa a gofyn i chwythwyr chwiban am eu barn am y broses chwythu'r chwiban. | Derbyn yn rhannol | Fel rhan o'r adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd ehangach, bydd y Bwrdd yn cael adroddiad yn rhoi ystadegau a themâu sy'n datblygu mewn perthynas â chwythu'r chwiban, trosiant staff, cwyno, yr Arolwg Pobl a materion Adnoddau Dynol.<br><br>Bydd yr adroddiad yn caniatáu i'r Bwrdd nodi tueddiadau ar draws amryw o feysydd. |
| 5 | Dylai adrannau gasglu unrhyw wybodaeth am bryderon a godwyd gan chwythwyr chwiban oddi wrth yr amrediad cyfan o gyrff lled braich a darparwyr eraill sy'n gysylltiedig â'u sectorau, a defnyddio'r wybodaeth honno. Dylent ddefnyddio a dadansoddi'r data i nodi unrhyw faterion systemig. | Derbyn | Bydd Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol yn codi chwythu'r chwiban yn y cyfarfod llywodraethu a gynhelir gyda phob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. |
| 6 | Dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gael cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer pob taliad diswyddo arbennig, a'r cytundebau cyfaddawdol cysylltiedig, lle y bônt yn ymwneud â chwythu'r chwiban. | Gwrthodwyd | Mae hynny'n annhebygol o ddigwydd, ond bydd cymeradwyaeth ffurfiol yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei geisio am unrhyw daliad diswyddo sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban. |